

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 MEDI 2021 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol Y Cyng Elfyn Williams (Cadeirydd), Shan Rees, Janet Knott, Richard John, Mair Stephens, Meinir James, Eifion Jones, Philip Davies ac Arfon Davies (Clerc)

Ymddiheuriadau: Y Cyng Rheinallt Jones a Viv Davies

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfarfod gyda Atgyweiriwr y Cyngor

Croesawodd y Cadeirydd Atgyweiriwr y Cyngor, Michael Leefe i'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei bresenoldeb. Trafododd aelodau'r gwaith sy'n cael ei wneud a nodwyd safon uchel y gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei ddarparu yn y Gymuned.

Diweddarodd Mr Leefe aelodau ar blannu yn y gwelyau yn Bancycapel, Cwmffrwd ac Idole. Bydd hefyd yn darparu pris i'r Cyngor am gyflenwi pren ychwanegol i wneud atgyweiriadau angenrheidiol i'r planwyr Cymunedol. Cadarnhawyd bod triniaeth goed ar draws amwynderau yn cael ei chynnal yn ystod y mis nesaf.

4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af Gorffennaf 2021.

5. Matters Arising

1. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 -

Nodwyd bod gwaith ar y gweill gyda'r gwelliannau ar y gyffordd. Nodwyd diolch i'r Cyngor Sir a'r tîrfeddiannwr lleol a oedd wedi galluogi'r gwaith i fynd ymlaen. Mynegwyd pryder mewn perthynas â lleoliad arfaethedig cyrbau isel fel eu bod yn rhy agos at y gyffordd ei hun. Bydd y Clerc yn codi hyn ar frys gyda'r Cyngor Sir er mwyn i'w adleoli ymhellach i lawr yr heol gael ei ystyried.

2. Uchafswm Cyflymder Cwmale - Nodwyd byddai'n rhaid i'r mater fod yn rhan o Orchymyn Rheoleiddio Traffig ac nad oedd hyn yn debygol o gael ei symud ymlaen tan fis Mawrth 2022. Nodwyd.

3. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cyffordd Ffordd Bolahaul yr A484 yng Nghwmffrwd - Darparwyd adroddiad diogelwch ffyrdd ar y mater gan y Cyngor Sir a oedd yn argymhell:

- symud yr arwyddion tro a chyffordd
- newid yr arwydd rhybuddio trionglog i ddarparu cefnogaeth felen i ychwanegu pwyslais
- gosod marciau ffordd Araf / Slow ger y gyffordd.

Byddai'r gwaith hyn yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf. Nodwyd.

4. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan - Nododd y Cyngor Sir mai dim ond yr Heddlu neu Go Safe y gallai darparu gorfodaeth. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Cyngor Cymunedol ystyried cymryd rhan mewn menter gwyllo cyflymder cymunedol. Nodwyd hyn. Bydd y Clerc yn adnewyddu cais y Cyngor am gynnal ymarfer caglu data cyflymder yn y lleoliad.

- 5. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cloigyn** - Darparwyd adroddiad diogelwch ffyrdd ar y mater gan y Cyngor Sir a oedd yn argymhell:
- darparu arwydd rhybuddio trionglog ar gefn melyn ar y ffordd tua'r dwyrain, a fyddai wedyn yn union a'r arwyddion ar yr ochr orllewinol.
 - gosod marciau ffordd Araf / Slow ar y ffordd tua'r gorllewin cyn dechrau'r wyneb canolog coch fel yr oedd ar y ffordd tua'r dwyrain.
 - Gosod marciau ffordd Araf / Slow ar y ffordd tua'r dwyrain cyn i'r dip yn y ffordd.

Nodwyd bod rhai o'r gweithgareddau hyn eisoes wedi'u cwblhau. Nodwyd ymhellach y gallai gwelededd yr arwyddion i gyfeiriad Pontantwn - Caerfyrddin fod yn wael. Codir hyn gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd hefyd yn ystod ymweliad cynnal a chadw diweddar, roedd staff openreach wedi nodi eu pryder am gyflymder traffig yn y lleoliad hwn.

- 6. Pryderon diogelwch ffyrdd yn Sgwâr Bryncochbach** - Roedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle ac wedi nodi'r angen i gynnal y tyfiant clawdd. Roedd rhywfaint o waith wedi'i wneud gan y Cyngor Sir a byddai cyswllt yn cael ei wneud gyda'r tîrfeddiannwr. Nodwyd.
- 7. Llygaid cathod ar y A484 rhwng Llandyfaelog ac Idole** - Nododd y Cyngor Sir byddai rhai newydd yn cael eu hasesu trwy fodel blaenoriaethu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Ar hyn o bryd, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyllid wedi'i ddarparu i'r mater. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu.
- 8. Damweiniau diweddar yng Nglanmorlais** - Roedd y Cyngor Sir wedi nodi un ddamwain anaf personol mewn 16 mlynedd a byddai'r ardal yn cael ei hadolygu. Mynegodd aelodau eu pryder mewn perthynas â'r datganiad hwn ar sail gwybodaeth bod llawer mwy o ddamweiniau wedi digwydd nag a awgrymwyd. Codir hyn eto gyda'r Cyngor Sir.
- 9. Arwyneb gwrth-sgidio** - Nododd y Cyngor Sir byddai gwaith yn cael ei asesu trwy fodel blaenoriaethu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Ar hyn o bryd, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyllid wedi'i ddarparu i'r mater. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu. Mynegodd aelodau eu pryder mewn perthynas â'r ymateb hwn a byddant yn gofyn am adolygiad o arwyneb gwrth-sgid yn yr ardal, yn enwedig yn Upland Arms.
- 10. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Derbyniwyd cadarnhad nad oedd cyllid wedi'i gytuno eto ar gyfer y prosiect, byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu yn y dyfodol. Nodwyd.
- 11. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 12. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd** – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.
- 13. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed** – Roedd y Cyngor Sir wedi ymweld â'r lleoliad ac wedi nodi bod llawer iawn o ordyfiant yn rhwystro'r llwybr. Felly byddai llythyr yn cael ei anfon at y tîrfeddiannwr i glirio'r mater. Nodwyd.
- 14. Cynnig i adeoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 15. Gorfodi Cynllunio, eiddo mewn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd cais cynllunio bellach wedi'i dderbyn ar y mater.
- 16. Pryder am garafán wedi'i lleoli ger Gelligaeros, Idole** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod y garafán wedi'i symud ger y byngalo yn yr eiddo i'w defnyddio fel cartref ategol dros dro tra bod yr adeilad yn cael ei hadnewyddu. Nodwyd.

- 17. Cynnig i ddarparu llwybr troed rhwng Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a'r Ficerdy** – Roedd y Clerc yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gyllid ar gyfer y prosiect hwn.
- 18. Casglu sbwriel posibl ar ffyrdd yn y Gymuned gan Tim Ad-dalu cymunedol** – Roedd y Clerc yn aros am ymateb ar y mater wrth y Tim Ad-dalu cymunedol. Nodwyd.
- 19. Capel Rama - Ail-baentio Lloches Bws** - Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod y Cyngor Sir yn gwneud ymholiadau ar y paent ar gyfer llochesi a'u cost ac y byddent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y dyfodol. Nodwyd.
- 20. Amnest Gwastraff Posibl - Llandyfaelog** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Nodwyd.
- 21. Llwybr troed 29/12 - Fferm Cilmarch** – Nodwyd materion pellach o bryder gyda'r lleoliad ac roedd y Clerc wedi codi hyn gyda'r timau'r Cyngor Sir a'r Llwybr Arfordirol a fyddai'n ceisio gosod arwyddion cyfeirnod pellach. Roeddent hefyd wedi awgrymu y dylai'r tiffeddiannwr ddarparu arwyddion 'tir preifat dim hawl cerdded'. Nododd y Clerc ei fod wedi awgrymu y dylai'r Cyngor Sir ddarparu'r rhain oherwydd efallai na fydd cerddwyr yn cymryd arwyddion preifat i fod yn gywir. Nodwyd.
- 22. Cais Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Cadarnhaodd y Clerc fod disgwyl penderfyniad ar y cais. Nodwyd.
- 23. Cystadleuaeth Bwgan Brain Cymunedol** – Nododd y Cadeirydd lwyddiant y gystadleuaeth a diolchodd i'r rhai a gymerodd ran. Cytunwyd ar wobrau fel:
- | | | |
|---|-----|-------------------------|
| 1af | £25 | Capel, Bancycapel |
| 2il | £20 | Keamore, Pentrepoeth |
| 3ydd | £10 | Star Forge, Upland Arms |
| 3ydd Ni dderbynnir y wobr Preswylfa, Llandyfaelog | | |
- 24. PL/01879 - Cais amlinellol ar gyfer hyd at 27 annedd preswyl gyda'r holl faterion wedi'u cadw - Tir gwag oddi ar Lon Santes Ann, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LZ** – Nodwyd bod y cais cynllunio amlinellol wedi'i wrthod.
- 25. Gwaith arwyneb ar Heol Hir (Llandyfaelog i Llansaint)** – Cadarnhawyd bod darn o ffordd o Benrheol i Fynydd Uchaf wedi'i ail-wynebu yn ddiweddar a'i fod yn ymddangos bod gwaith pellach yn cychwyn yn fuan. Nodwyd.
- 26. Pryder ynghylch wyneb y ffordd ym Maesglasnant, Cwmffrwd** - Roedd y Cyngor yn aros am wybodaeth bellach ar y mater.
- 27. Fforwm Cyswllt Sir Caerfyrddin** - Rhoddodd y Cyng Richard John adroddiad o'r cyfarfod. Nodwyd.
- 28. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin Un Llais Cymru** - Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o'r cyfarfod.
- 29. Gwelededd priffyrdd ar gyffordd Croesyceiliog gyda'r A484 (cyfeiriad Llandyfaelog)** - Nodwyd bod tyfiant y clawdd a'r ymylon wedi'i dorri'n ôl i gynorthwyo gwelededd wrth y gyffordd
- 30. Problem pobl yn defnyddio Lloches Bysiau Bancycapel fel toiled** - Nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu â'r heddlu a'r Cyngor Sir a dywedwyd wrtho y dylid adrodd digwyddiadau yn uniongyrchol i'r gwasanaeth heddlu 101. Nodwyd hyn gyda siom.

6. Gohebiaeth

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad bod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig 2018-2033 wedi'i ohirio ar hyn o bryd ac nid oedd amserlen ar gael. Nodwyd.
2. **Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda** - Cylchlythyrau Gorffennaf ac Awst. Nodwyd.
3. **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru** - Adroddiad terfynol eu hadolygiad o Ffiniau'r Cyngor Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd hyn greu ward 2 aelod gan gynnwys Cymunedau Llandyfaelog a Llangyndeyrn o'r enw Llangyndeyrn. Cytunwyd i ysgrifennu at y Comisiwn yn nodi siom y Cyngor nad oedd ei gais i gadw Ward bresennol Llanismel wedi cael ei gefnogi a gofyn bod enw Llandyfaelog bellach yn cael ei gynnwys yn enw'r ward newydd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymarfer ymgysylltu ar Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin gan gynnwys dolen i'r holiadur. Bydd y Clerc yn gofyn a ellid darparu gwybodaeth ymatebion yr holiadur ar gyfer ardal Gymunedol Llandyfaelog.
5. **Un Llais Cymru** – Copi o ddiweddariad canllawiau i gefnogi'r Cod Ymddygiad 2016 wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodwyd.
6. **Llywodraeth Cymru** – Ymgynghoriad ar Reolau 2021 Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 - Nodwyd.
7. **Llywodraeth Cymru** – Cais am enwebiadau anrhydedd - Pen-blwydd y Frenhines 2022. Nodwyd.
8. **Llywodraeth Cymru** – Newyddlenni Diwygio Etholiadol Gorffennaf ac Awst 2021. Nodwyd.
9. **Llywodraeth Cymru** – Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a lletyau hunanarlwyo. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais i enwebu cynrychiolydd awdurdod bach ar gyfer Corff Llywodraethol Ysgol y Fro. Mynegwyd pryder y gallai hyn ymwneud â'r Cyng Richard John gan nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethol oherwydd anawsterau a gafwyd gyda'r porth TG gofynnol. Roedd y Cyng John a'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r mater hwn o'r blaen ond heb lwyddiant. Bydd y Clerc yn egluro'r mater. Nodwyd.
11. **Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin** - Diweddariad ar brosiect Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin (cais Prosiect Etifeddiaeth Griffith Jones). Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o daliad 1/3ydd o braesept 2021-22 sef £7,833.33. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyflwyniad o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynhaliwyd ar 21ain a 22ain Gorffennaf. Nodwyd.
14. **Llywodraeth Cymru** – Gwybodaeth ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, ar gyfarfodydd aml-leoliad a hysbysiadau cyfarfod. Nodwyd.
15. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
16. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
17. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am y Gynhadledd Ymarfer Arloesol i'w chynnal ar 22ain Medi. Nodwyd.

7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad mewn perthynas â'r hawliad yswiriant am y ffens a ddifrodwyd yng Nghau Idole.

2. Cadarnhaodd y Clerc, yn dilyn archwiliad o'r Coed Onnen rhwng Cae Idole a phriffordd yr A484, ei fod wedi gofyn am ymweliad gan Lampeter Tree Services i gael eu cyngor. Roedd y cwmni o'r farn y dylid dileu nifer o'r Coed Onnen ynghyd ag rhai eraill. Roedd y Clerc wedi ceisio egluro a oedd y tir dan sylw yn rhan o'r gae pentref neu o dan berchnogaeth y Cyngor Sir, ond nid oedd gwybodaeth bendant ar gael. Felly roedd y Cyng Mair Stephens yn gwneud ymholiadau ar y mater.

3. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod gardd peillio wedi ei chreu yn Dir Gof ar 30ain Gorffennaf trwy Gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Helpodd grŵp o wirfoddolwyr lleol Jemma Davies o Gadwch Gymru'n Daclus i greu'r ardd. Nododd y Cadeirydd ddiolch y Cyngor i'r grŵp gwirfoddolwyr am eu hymdrechion gyda'r ardd.

8. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc gyfanswm o 28 awr a weithiwyd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst gan wneud taliad o £840.00 y cytunwyd arno.

9. Cyfethol Aelod i'r Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc, ar ôl gosod hysbysiadau yn y Gymuned a'r wefan, na alwyd etholiad i lenwi'r sedd wag ac na dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn cyfetholiad. Cytunwyd felly i ail-hysbysebu am fynegiadau o ddiddordeb yn barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

10. Camau i'w cymryd gan y Cyngor ar farwolaeth EM Y Frenhines

Cyflwynodd y Clerc ddogfen ganllaw a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru ar 'Operation London Bridge' a oedd yn delio â'r camau y gallai Cynghorau eu cymryd ar ôl marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines. Nodwyd hyn a chytunwyd ar y camau i'w cymryd.

11. Cynllunio - derbyniwyd hyd y dyddiad.

a) PL/02147 - Coetir Cymunedol gyda Gardd Gymunedol a Berllan - A: 2x [2.4m x 4.8m] Mannau parcio ceir. B: Ardal ymwelwyr a storfa offer. C: Biochar, pren, helyg, a storfa sych bambŵ. D: Twnnel polythen ar gyfer cynhyrchion sy'n tyfu yn y gymuned ac economi wledig. E: Carafán ar gyfer storio a gweithgynhyrchu economi wledig, cynhyrchion a dyfir yn gynaliadwy. F: Toiled compost. - Coetir Cymunedol, Coedwig Gorllewin Cymru, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DH. Dim gwrthwynebiadau.

b) PL/02381 - Cartref arfaethedig - Plot ger Maeshyfyd, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DH Nodwyd bod eiddo cyfagos wedi nodi ei wrthwynebiadau i'r cais ar sail nad oedd y gynlluniau'n unol â'r caniatâd amlinellol gwreiddiol ar gyfer y safle. Cytunodd y Cyngor i gefnogi'r gwrthwynebiad hwn a gofyn bod unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer eiddo fod yn unol â'r gymeradwyaeth gynllunio wreiddiol hon.

c) PL/02529 - Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer newid hen goetsdy yn gyfleuster hamdden a gweithio gartref i'w ddefnyddio ar y cyd â'r tŷ presennol - Cwmbwri, Glanyfferi, SA17 5TW. Dim gwrthwynebiadau.

12. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Gorffennaf a chostau	£624.78	£26.00 £7.00	£657.78	£126.20	£0.00	£531.58

2. Michael Leefe

£840.00

Atgyweiriwr Gorffennaf a Awst
(gweler eitem 8 uchod)

3.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Awst a chostau	£624.78	£26.00 £7.00 £70.12 £27.00	£754.90	£126.20	£0.00	£628.70

4. Vision ICT

£300.00

Cynnal a chadw wefan 2021-22
(£250.00 gyda £50.00 TAW)

13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nodwyd bod rhai hysbysiadau ar hysbysfyrdau'r Cyngor a ddarperir gan sefydliadau neu unigolion eraill yn Saesneg yn unig. Trafododd y Cyngor ffyrdd posibl o annog darparu hysbysiadau dwyieithog. Cytunwyd y bydd y Clerc yn darparu poster yn hyrwyddo'r defnydd o apiau cyfieithu am ddim ar yr hysbysfyrdau.
2. Nodwyd bod adolygiad o Orchmynion Diogelu'r Cyhoedd i gael ei gynnal a allai gynnwys materion cŵn.
3. Nodwyd bod problem gyda charthffosiaeth mewn cylfat yn Llandyfaelog yn codi pryder. Bydd y Clerc yn codi hyn gyda Thîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor Sir.
4. Mynegwyd pryderon mewn perthynas â materion parcio yn Llandyfaelog. Bydd y Clerc yn codi gyda'r heddlu a'r Cyngor Sir.
5. Bydd y Clerc yn gofyn am ystadegau ar weithgareddau monitro cyflymder a wneir gan yr heddlu yn y gymuned.
6. Nododd y Cadeirydd byddai cinio Nadolig y Cyngor yn cael ei gynnal yn y Llew Coch ar 5ed Rhagfyr.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 7^{fed} Hydref 2021 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.